

Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Emma Lyddon

Gwneud y mwyaf o'r awyr agored i fagu hyder ac i ddysgu am fyd natur

## Effaith...

- Ennyn parch a dealltwriaeth o fyd natur a'r amgylchedd
- Rhoi'r cyfrifoldeb i'r plant drwy gynnig dewisiadau ac amrywiaeth
- Datblygu sgiliau dychmygus a chwarae rôl ymysg natur
- Defnyddio'r amgylchedd wrth fagu hyder plant
- Dysgu am newidiadau tymhorol drwy chwarae tu allan ymysg natur

*"Mae'r plant i gyd wedi magu hyder mor anhygoel tu allan ymysg natur, ac mae'n bleser mawr ac yn fraint eu gweld yn hapus ac yn hyderus yn yr ardaloedd awyr agored. Maent bob amser yn cymryd rhan yn yr hyn sydd o ddiddordeb iddynt."*

## Cefndir

Yn Sir Gaerfyrddin, mae gwarchodwr plant cofrestredig wedi newid ffocws ei lleoliad o chwarae dan do i'r awyr agored; sy'n hyrwyddo creadigrwydd ac annibyniaeth ymysg byd natur, ac yn hybu mwy o chwarae dychmygus.

## Beth sydd wedi newid?

Mae grantiau bach wedi helpu i droi drawsnewid ardal chwarae awyr agored. Roedd hyn yn cynnwys:

- Beiciau, chwarae blêr, 'tuff tray', cegin fwd a wal-ddŵr
- Offer dringo a thrawstiau cydbwysedd
- Bwrdd archwilio gydag eitemau tymhorol naturiol a chwyddwydrau
- Sleid, siglenni a si-so

Gall y plant hefyd archwilio hen ganŵ, pibellau rhydd, gwteri a theiars. Mae hyd yn oed llwyfan i annog chwarae rôl

Fe weithiodd teulu Emma gyda'i gilydd i adeiladu'r holl offer awyr agored eu hunain!

Mae astudiaeth Emma yn dangos sut y gall chwarae ymysg natur ddylanwadu'r gadarnhaol ar lles corfforol, meddyliol a chymdeithasol y plant, yn ogystal â'u dysgu a'u datblygiad. Gan gynnig amrywiaeth o weithgareddau tu allan, magodd y gwarchodwr chwilfrydedd a hyder yn y plant, gan eu hannog i werthfawrogi amgylchedd o oed ifanc.